Ffarm Moelyci

I feithrin bwyd da, bywyd gwyllt a menter lleol

For good food, wildlife and enterprise nurtured locally

Bwletin Hydref 2015
Ffarm Moelyci
Bulletin October 2015

Cwm Harry

For enterprising communities

A message from Cwm Harry

The 390 acres Ffarm Moelyci is now under the new management of Cwm Harry Land Trust. Taken on a long-term lease with a view to purchase, the environmental enterprise charity is establishing a new direction as a rural enterprise farm. Cwm Harry is opening up the farm to entrepreneurs and the public alike. Over the coming two years we will be seeking new and established businesses to set up at Moelyci. There are already several enterprises underway with the common theme of good food and good community. The farm will also be returned to farming in the near future.

Now, there is also rentable office space available, so if you have a rural or food based business then get in touch with Adam on 07791122491.

Adam Kennerley, Cwm Harry CEO adam@cwmharry.org.uk

Shop and Cafe

The shop and cafe grows from strength to strength. We now feature a large range of dried pulses, rice, nuts and all sorts of cooking ingredients all non-gm and some organics. Now you really can do a full shop here on the Ffarm. And, why not treat yourself to a drink and a cake? What is lovely about the new cafe is watching people meet their friends and cross paths in the space we have created. There is a real sense of community, and a lot of lovely regulars.

On the horizon is Christmas! Yes, I know. Jo and Dave went to put ribbons on the Christmas Trees we want to sell, which will be for sale in the shop from December. As ever, watch this space.

Jo Gordon, Shop Manager

Dave Ellis, Food Hub davee@cwmharry.org.uk

Shop/Café Opening Hours
Friday 11:00am - 6:00pm
Saturdays 9:30am –5:00pm

FREE Wi Fi **Free Wi-Fi now available in the café**

Neges gan Gwm Harry

Mae Ffarm Moelyci bellach dan reolaeth ymddiriedolaeth dir Cwm Harry. Mae'r elusen amgylcheddol yn datblygu i gyfeiriad newydd drwy rentu'r fferm 390 erw ar brydles tymor hir gyda golwg ar ei phrynu. Mae Cwm Harry yn agor y fferm i entrepreneuriaid ac i'r cyhoedd fel ei gilydd. Dros y ddwy flynedd nesaf byddwn yn chwilio am fusnesau hen a newydd i ymsefydlu ym Moelyci. Mae nifer o fentrau wedi cychwyn yn barod gyda'r nod cyffredin o hybu bwyd da a chymuned dda. Bwriedir ailgychwyn ffermio ym Moelyci yn y dyfodol agos. Mae gofod swyddfa hefyd ar gael i'w logi. Felly, os oes gennych fusnes gwledig neu fusnes bwyd cysylltwch ag Adam ar 07791122491.

Adam Kennerley, Cwm Harry CEO adam@cwmharry.org.uk

Siop a Caffi

Mae'r siop a'r caffi'n mynd o nerth i nerth. Rydym bellach yn cynnig ystod eang o gorbys sych, reis, cnau a phob math o gynhwysion coginio sydd i gyd yn ddi-gm a rhai yn organig. Erbyn hyn mae'n bosib gwneud eich siopa i gyd yn y Ffarm. A beth am sbwylio'ch hun a chael panad a chacen? Mae'n grêt gweld pobol yn cyfarfod ffrindiau a tharo ar ei gilydd yn y llecyn braf rydym wedi'i greu. Mae yma deimlad o gymuned, a chriw da o gwsmeriaid rheolaidd.

Mae'r Nadolig ar y gorwel! Ia, dw i'n gwybod! Mae Jo a Dave wedi rhoi rubanau ar y coed 'Dolig fydd yn cael eu gwerthu yn y siop ym mis Rhagfyr. Mwy am hyn maes o law!

Jo Gordon, Rheolwr y Siop a Dave Ellis, Canolfan Fwyd davee@cwmharry.org.uk

Oriau agor y Siop/Caffi
Gwener 11:00 – 18:00
Sadwrn 9:30 –17:00

FREE Wi Fi **Wi-Fi am ddim ar gael yn y caffi**

Market Garden

Autumn is here! The nights are getting cooler and longer and a change is in the air. Beds are being cleared and new winter crops being planted.
Crops are being harvested throughout the market garden and are for sale in the veg boxes and the shop. But now, a new 'Honesty stall' has also been set up at the entrance to Moelyci, so you can pick up vegetables and flowers as you pass. A big thank you to everyone using this. We are also selling produce through the Market Garden on days when the shop is shut.
We have also been busy building new structures in the market garden. There is now a new covered area by the office porta cabin - thank you Dan, and Lucy has been very busy coordinating the construction of a new sales shelter in the fruit field. Thank to everyone who has helped with this – it's all looking great! But it's not stopping there, coming soon will be a brand new polytunnel for plant propagation. Please come and have a look around at these brilliant new developments. We also welcome new volunteers every Thursday between 10.00am and 4.00pm. Come along and join in

Coryn Bye, Market Garden Manager

Cosyn Cymru – Available now in Ffarm Moelyci Shop!

Last week was a nervous time……moving the first sheep's cheese to the store at Ffarm Moelyci. Would they settle down and be happy? And start doing all the things that cheeses need to do to develop those wonderful individual flavours…mixtures of hazelnut, honey, citrus and more. Fingers crossed….all going well so far.
There's the cream-coloured large wheel 'Olwyn fawr' for those who like Manchego or Ossau Iraty. Then there's 'Brefu' a Chaource-like little lactic cheese – bright and mushroomy. With luck, they should be coming to Ffarm Moelyci shop and café very soon.
Meanwhile there are the new sheep's milk ice cream flavours…..lemon, chocolate, vanilla as well as the original honey and the frozen fruit yogurt. All of them traditional 'home-made style' ice cream – simply sheep's milk, cream, eggs and unrefined sugar plus fresh flavours. Plus of course the thick and creamy sheep's yogurt in little glass gallipots. All available at the Ffarm Moelyci shop and café. Looking forward to seeing you there!

Carrie Rimes, Cosyn Cymru and Shop Volunteer

Yr Ardd Fasnachol

Mae'r hydref wedi cyrraedd! Mae'r nosweithiau'n oerach ac yn hirach ac mae newid yn y gwynt. Mae'r gwelâu'n cael eu clirio a chnydau'r gaeaf yn cael eu plannu.
Rydym yn brysur yn cynaeafu llysiau yn yr ardd fasnachol ac yn eu gwerthu mewn bocsys llysiau ac yn y siop. Ar ben hyn, mae stondin gonestrwydd wrth fynedfa Moelyci lle y gallwch gael blodau a llysiau wrth fynd heibio. Diolch yn fawr i bawb sy'n defnyddio hwn. Rydym hefyd yn gwerthu cynnyrch yn yr Ardd Fasnachol ar ddyddiau pan fydd y siop ar gau.
Rydym hefyd wedi bod yn brysur yn adeiladu yn yr ardd fasnachol. Bellach mae yna lecyn dan do gerbron caban y swyddfa - diolch, Dan - ac mae Lucy wedi bod yn brysur iawn yn cydlynu adeiladu man gwerthu yn y cae ffrwythau. Diolch i bawb sydd wedi helpu gyda'r fenter - mae popeth yn edrych yn wych! Ond nid dyna'r cyfan - cyn bo hir bydd gennym bolidwnnel newydd sbon ar gyfer meithrin planhigion. Dewch draw i gael golwg ar y datblygiadau newydd hyn. Rydym bob amser yn falch o gael croesawu gwirfoddolwyr newydd ar ddydd Iau rhwng 10am a 4pm. Dewch i ymuno â ni!

Coryn Bye, Rheolwr yr Ardd Fasnachol

Cosyn Cymru

Mae'r cawsiau dafad cyntaf wedi cyrraedd eu cartref newydd ar Ffarm Moelyci. Fydden nhw'n hapus? Maen nhw'n ofnadwy o anodd eu plesio... Mae'n rhaid cael y tymheredd, y lleithder a llif yr aer yn berffaith er mwyn datblygu'r holl flasau gwahanol. Ond mae popeth yn iawn hyd yn hyn, gobeithio.
Mae yna 'Olwyn fawr' gyda chroen lliw hufen, yn debyg i Manchego neu Ossau Irraty. Wedyn mae yna 'Brefu' sy'n gaws bach meddal ychydig fel Chaource efo blas lemon a madarch. Gyda lwc mi fydden nhw'n cyrraedd siop Ffarm Moelyci cyn bo hir.
Yn y cyfamser mae yna flasau hufen iâ dafad newydd... lemon, siocled a fanila yn ogystal â mêl ac iogwrt ffrwythau wedi'i rewi. Maen nhw i gyd fel rhai cartref - yn cynnwys dim ond llefrith dafad, hufen, wyau, siwgr naturiol a blasau ffres. Hefyd mae yna iogwrt trwchus a blasus mewn potiau bach gwydr. Mae popeth ar gael yn siop a chaffi Ffarm Moelyci - brysiwch draw!

Carrie Rimes, Cosyn Cymru a Gwirfoddolwr y Siop

Teaching/Commercial Catering Kitchen

The old barn, which is now a great meeting space and small conference venue, has been refurbished with the installation of a commercial grade kitchen available to hire. These facilities are available for expanding producers to use, for teaching or simply to cater for your events. A big Thank you to Coastal Communities for financing this and to the Moelyci Team for making it all fit in!

Ffarm Moelyci Evening Talks

Ffarm Moelyci would like to say a big thank you to John Harold, Director at the Snowdonia Society for presenting his talk on 'The Natural History of a Welsh Hill Farm' in September.

Every month in the Ffarm Moelyci barn. £2 Entry including Panad and a biscuit!

Upcoming Talks

27th October, 7.30pm	**The Red Squirrel Project** Dr Craig Shuttleworth
24th November, 7.30pm	**Sustainable Grazing** Hillary Kehoe, Ynys Mon Local Grazing Scheme Co-ordinator

Maria Jones, Volunteer

Dates for your Diary

- ✓ **Candle Making with Beeswax**
  17th October 2:00pm – 5:00pm.
  Come along and learn all about Beeswax. We will explain how it's made by the bees, how we collect it and then how we clean it ready for use. Then we'll make some candles.
- ✓

  13th October, 7.30pm
  Douglas Arms, Bethesda
- ✓ **Ecology group meeting:** 13th October 19:00 – 20: 30 in the barn
- ✓ **Fungal Foray:** Saturday 24th October from 1pm until 5.30pm

Remember our Volunteering Days

- ➢ Market Gardening every Thursday 10.00am until 4.00pm
- ➢ Work with the land every Tuesday 10.00am until 4.00pm
- ➢ Shop and Café every Saturday 10.00am until 4.00pm

Cegin Addysgu / Arlwyo

Mae'r hen 'sgubor bellach wedi'i hatgyweirio ac yn fan ardderchog ar gyfer cyfarfodydd neu gynadleddau bychan. Mae'r cyfleusterau'n cynnwys cegin o safon broffesiynol sydd ar gael i'w llogi ar gyfer cynhyrchu bwyd, dysgu neu arlwyo ar gyfer digwyddiad. Diolch yn fawr iawn i *Gronfa Cymunedau'r Arfordir* am gyllido'r project ac i dîm Moelyci am lwyddo i wneud lle i bopeth!

Sgyrsiau Min Nos yn Ffarm Moelyci

Dymuna Ffarm Moelyci ddiolch yn fawr iawn i John Harold, Cyfarwyddwr Cymdeithas Eryri, am ei sgwrs ar 'Hanes Naturiol Fferm Fynydd yng Nghymru' ym mis Medi.

Pob Mis yn 'sgubor Ffarm Moelyci. Mynediad £2 gan gynnwys panad a bisged!

Sgyrsiau sydd i ddod

27 Hydref, 19:30	**Prosiect y Wiwer Goch** Dr Craig Shuttleworth
24 Tachwedd, 19:30	**Pori Cynaliadwy** Hillary Kehoe, Cydlynydd Cynllun Pori Lleol Ynys Môn

Maria Jones, Gwirfoddolwr

Nodyn i'r dyddiadur

- ✓ **Gwneud canhwyllau â chwyr gwenyn**
  17 Hydref - 14:00 - 17:00
  Dewch draw i ddysgu am gwyr gwenyn. Byddwn yn egluro sut mae gwenyn yn ei gynhyrchu, a sut rydyn ni'n ei gasglu a'i lanhau cyn ei ddefnyddio. Wedyn byddwn yn gwneud ychydig o ganhwyllau.
- ✓

  13 Hydref, 19:30
  Douglas Arms, Bethesda
- ✓ **Cyfarfod Grŵp Ecoleg** 13 Hydref - 19:00 - 20: 30 yn 'sgubor
- ✓ Helfa Ffwng, Dydd Sadwrn 24 Hydref 1 tan 5.30 pm.

Gofiwch ein diwrnodau gwirfoddoli

- ➢ Gardd Fasnachol pon dydd Iau 10:00 tan 16:00
- ➢ Gweithio'r Tir pob dydd Mawrth 10:00 tan 16:00

Snowdonia Donkeys at Ffarm Moelyci

Since the beginning of August, Snowdonia Donkeys have been enjoying the grass and tranquillity at Moelyci. Snowdonia Donkeys works with people to promote health and well- being by organising accompanied walks and contact sessions with these gentle creatures.

We don't offer rides, instead our donkeys have pack saddles to enable them to carry picnics to encourage our visitors to walk in the beautiful Welsh countryside. The donkeys at Moelyci; Walter, Winifred and Jenny, have regularly walked the Heritage Trail with visitors and sometimes ventured further afield. Snowdonia Donkeys have also been working with organisations including Teulu Ni and Action for Children offering bespoke activities for individuals and groups. The facilities at Moelyci has enabled us to hold a Saturday Club which offers theory and practical sessions for young people interested in donkeys.

On August Bank holiday we held an open day for our volunteers and supporters. The donkeys met new people as well as old friends and many enjoyed the coffee being served at the café. This day was a success and we have another planned for Sunday 25th October before our grazing contract comes to an end. We look forward to seeing you then. For more information please contact snowdoniadonkeys@btinternet.com

Ruth and Janet, Snowdonia Donkeys

Workers' Educational Association 6 Week Community Courses

Printing	Beginning on 03/11/2015
Casting and Collage	Beginning on 12/01/2016

For more information or to register call: **01492 536 693**

Sgwrs a Panad 3rd October 2015

Cymraeg

Are you a Welsh learner and would like to use your Welsh more often? Join us in the Ffarm Moelyci Café every first Saturday each month 10:00 – 11:00am for a panad and a chat.

- Siop a Caffi pon dydd Sadwrn 10:00 tan 16:00

Mulod Eryri ym Moelyci

Ers dechrau mis Awst, mae mulod Eryri wedi bod yn mwynhau porfa a llonyddwch Moelyci. Mae Mulod Eryri yn gweithio gyda phobl i hyrwyddo iechyd a lles trwy drefnu sesiynau cyswllt a theithiau cerdded yng nghwmni'r mulod addfwyn.

Dydyn ni ddim yn cynnig reidiau ar gefn mul. Yn hytrach, i annog ymwelwyr i grwydro cefn gwlad Cymru, mae gan y mulod ystarnau i gario picnic. Mae Walter, Winifred a Jenny, y mulod ym Moelyci, wedi cerdded yn rheolaidd ar hyd y Llwybr Treftadaeth gydag ymwelwyr, ac weithiau wedi mentro ymhellach.

Mae Mulod Eryri hefyd wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau megis *Teulu N*i a *Gweithredu dros Blant* sy'n cynnig gweithgareddau ar gyfer unigolion a grwpiau. Mae cyfleusterau Moelyci wedi caniatáu inni gynnal Clwb Dydd Sadwrn yn cynnig sesiynau theori ac ymarferol ar gyfer pobl ifanc sydd â diddordeb mewn mulod.

Ar ddiwrnod Gŵyl y Banc fis Awst trefnwyd diwrnod agored ar gyfer ein gwirfoddolwyr a chefnogwyr. Cafodd y mulod gyfle i gyfarfod pobl newydd a hen ffrindiau a fu'n mwynhau'r coffi yn y caffi. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus ac rydym wedi trefnu digwyddiad tebyg ar gyfer Dydd Sul 25 Hydref cyn i'r cytundeb pori ddod i ben. Edrychwn ymlaen at eich gweld bryd hynny.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Ruth neu Janet ar snowdoniadonkeys@btinternet.com

Ruth a Janet, Mulod Eryri

Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Cyrsiau Cymunedol 6 Wythnos

Gwersi Printio	Dechrau 03/11/2015
Gwersi Castio a Collage	Dechrau 12/01/2016

Am fwy o wybodaeth neu i gofrestru ffoniwch: **01492 536 693**

Panad a Sgwrs 3 Hydref 2015

Cymraeg

Ydych chi'n dysgu Cymraeg? Hoffech chi gael cyfle i siarad Cymraeg yn fwy aml?

Dewch draw i Gaffi Ffarm Moelyci bore Sadwrn cyntaf pob mis rhwng 10.00 ac 11.00 am banad a sgwrs.

Ffarm Moelyci
I feithrin bwyd da, bywyd gwyllt a menter lleol
For good food, wildlife and enterprise nurtured locally

Cwm Harry
For enterprising communities

New developments coming soon…

- **Specialist cheese dairy**
  On behalf of sheep's cheese producer Carrie Rimes we are applying for planning permission to build her a new dairy building with underground cheese store. Carrie's yoghurts and ice cream are already available to buy in the new Ffarm shop.
- **Biomass Zone**
  Known for its community composting site Moelyci is looking to revitalise this, but focus on extracting valuable nutrients and energy from currently surplus or unused biomass. Grasses, bracken, soft rush are all valuable resources that can yield a return given the right approach. Plans for converting the old composting site are being drawn up and will be coming forward this autumn. If you have ambitions in the biomass enterprise then get in touch.
- **Renewable energy**
  This will be needed at Ffarm Moelyci, to heat and power the newly energised enterprise activities. We are at the early stages of looking at what forms of renewable energy – biomass, ground source heat, solar PV etc. – will be suited to the farm. As importantly we are planning to explore how energy is stored and distributed around the farm as an example of how other farms and villages might become self-sufficient.

Interested in any of these developments or in what Ffarm Moelyci can offer your business?
Contact Adam on 07791122491 or adam@cwmharry.org.uk

Sussed Ffarm Moelyci Cultivate Cwm Harry
For enterprising communities

Datblygiadau newydd ar y gweill …

- **Hufenfa gaws arbenigol**
  Ar ran Carrie Rimes, sy'n cynhyrchu caws dafad, rydym yn gwneud cais am ganiatâd cynllunio i godi hufenfa ar ei chyfer gyda storfa gaws dan ddaear. Mae iogwrt a hufen iâ Carrie eisoes ar werth yn Siop Moelyci.
- **Safle Biomas**
  Mae Moelyci'n adnabyddus am ei safle compostio cymunedol ac rydym yn edrych i ail-gychwyn hyn, gyda phwyslais ar godi maetholion gwerthfawr ac ynni o fiomas sydd ar hyn o bryd dros ben neu heb gael ei ddefnyddio. Mae gweiriau, rhedyn a brwyn pabwyr i gyd yn adnoddau gwerthfawr sy'n gallu creu incwm o gael eu trin yn iawn. Rydym yn paratoi cynlluniau ar gyfer addasu'r hen safle compostio a byddant ar gael yn yr hydref. Os oes gennych ddiddordeb mewn menter biomas cofiwch gysylltu.
- **Ynni adnewyddadwy**
  Bydd gofyn cael ynni adnewyddadwy yn Ffarm Moelyci i wresogi a darparu trydan ar gyfer y mentrau sydd wedi cael ail wynt. Rydym wedi dechrau ystyried pa ffurfiau ar ynni adnewyddadwy - biomas, gwres o'r ddaear, paneli solar ffotofoltaig ayb - fydd yn addas ar gyfer y fferm. Rydym hefyd yn bwriadu ymchwilio i sut y mae ynni'n cael ei storio a'i ddosbarthu ar y ffarm fel enghraifft o sut y gallai ffermydd a phentrefi eraill ddod yn hunangynhaliol.

Oes gennych chi ddiddordeb yn rhai o'r datblygiadau hyn, neu yn sut y gallai Ffarm Moelyci helpu eich busnes?
Cysylltwch ag Adam ar 07791122491 neu adam@cwmharry.org.uk

Sussed Ffarm Moelyci Cultivate Cwm Harry
For enterprising communities